IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 7 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ford a/ac Wood |

38 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Doedd dim datganiad buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

39 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - COFFEE BARKER, Y STRYD FAWR

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Stephen Barker<br>Sharon Barker |
| Awdurdodau Cyfrifol: | PC Rob Gunstone, Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru<br>Rhys Morgan, Trwyddedu |

<u>Cais:</u>

Derbyniwyd cais ar gyfer amrywio trwydded mangre gan Vintage Tea & Coffee Co Ltd mewn perthynas â Coffee Barker, 1 – 13 Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BU.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais i amrywio'r drwydded fel a ganlyn:

Diwygio'r oriau a ganiateir ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy fel a ganlyn:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 10:00 tan 01:00
Dydd Sul: 10:00 tan 23:00
Nos Galan: 10:00 tan 01:00

Darparu adloniant a reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth fyw (dan do):

Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30
Nos Galan: 23:00 tan 01:00

Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do):

Dydd Llun i ddydd Sul: 23:00 tan 01:00
Nos Galan: 23:00 tan 01:00

Darparu lluniaeth gyda’r hwyrnos (y tu mewn a’r tu allan).

Dydd Llun i ddydd Sul: 23:00 tan 01:00
Nos Galan: 23:00 tan 01:00

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol:

Ar ddechrau'r cyfarfod hysbyswyd yr Aelodau gan PC Rob Gunstone ar ran Heddlu De Cymru bod yr ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn yr holl amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, gan fod yr adeilad yn eistedd o fewn yr ardal a ddiffinnir gan Gyngor Dinas Caerdydd fel yr hyn a gwmpesir gan ei Bolisi Effaith Gronnol bresennol, dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

Dywedodd Rhys Morgan, ar ran yr Adran Drwyddedu, fod yr amodau presennol yn mynnu mai'r prif ddefnydd yw fel caffi/bwyty ac y gellir ystyried caniatáu estyniad i'r oriau trwyddedadwy fel newid defnydd. Er y nodwyd bod 70% o'r lle cyhoeddus o fewn ardal drwyddedadwy'r eiddo yn cael ei meddiannu gan fyrddau a chadeiriau mae amodau eraill y gellid eu gosod, sef gwasanaeth gweini neu alcohol i'w yfed dim ond gan y rhai sy'n eistedd.

Sylwadau'r Ymgeisydd:

Anerchodd Mr Barker yr is-bwyllgor ac ail-bwysleisiodd y ffaith fod yr amodau a amlinellwyd yn y llythyr gan Heddlu De Cymru wedi'u derbyn. Dywedodd Mr Barker eu bod wedi bod yn masnachu o'r safle am gyfnod hir a'u bod yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol eu cwsmeriaid yn ystod y dydd, ond y byddai'r prif ddefnydd yn parhau fel caffi/bwyty. Mae'r safle ar agor am 8.00 yn y bore 7 diwrnod yr wythnos am frecwast a bydd yn parhau i wneud hynny, yn wahanol i sefydliadau eraill yn yr ardal sydd ond yn agored ar gyfer masnach gyda'r nos ar nosweithiau penwythnos; nid oes unrhyw gynigion am alcohol 2 am bris 1 ar gael ar unrhyw adeg ac ni ddangosir unrhyw ddigwyddiadau chwaraeon ar deledu.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn CYMERADWYO'R CAIS i newid y drwydded eiddo, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru.

40 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BREAD AND SALT, HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Piotr Mazuchowski
Renata Majka (Partner)

Cais:

Derbyniwyd cais am drwydded mangre gan Bread and Salt Limited mewn perthynas â Bread & Salt, 155 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd, CF11 9AH

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (dan do)
(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do)

Yr oriau agor a ganiateir canlynol:
Dydd Sul i ddydd Iau: 09:00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 02:30

I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Sul i ddydd Iau: 09:00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 02:30
(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (dan do):
Dydd Sul i ddydd Iau: 09.00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 02:30
(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):
Dydd Sul i ddydd Iau: 09.00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 02:30

Ar ddechrau'r cyfarfod hysbyswyd yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn yr holl amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig oddi wrth Heddlu De Cymru a'r Gwasanaethau Cymdogaeth.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd:</u>

Anerchodd Renata Majka yr is-bwyllgor ar ran Piotr Mazuchowski gan ofyn i unrhyw amodau a osodir, pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi, fod yn unol ag oriau'r mangreoedd trwyddedig eraill yn yr ardal.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn CYMERADWYO'R CAIS i newid y drwydded eiddo, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru a'r amodau canlynol:

Yr oriau agor a ganiateir canlynol:
Dydd Sul i ddydd Iau: 09:00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 00:30

I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Sul i ddydd Iau: 09:00 tan 23:30
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 00:00
(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (tu fewn):
Dydd Sul i ddydd Sadwrn: 09.00 tan 00:00
(iii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):
Dydd Sul i ddydd Sadwrn: 11.00 tan 00:00

41 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am